

Plant Fibre Technology

Proffil y Cwmni

Lansiwyd Plant Fibre Technology (PFT), a sefydlwyd yn 2005 gan gyfarwyddwr y cwmni, Gary Newman, gyda'r nod o wneud ynysu naturiol "yn norm, nid yn eithriad". Mae PFT yn chwarae rôl ganolog, arloesol, yn natblygiad cynhyrchion a chyfleoedd masnachol newydd a wnaed o ffibrau planhigion. Mae PFT yn datblygu ac yn marchnata ystod o gynhyrchion adeiladu a wnaed o fïomas. Mae'r rhain yn cynnwys ynysiad â ffibr yn sylfaen iddo, bwrdd sglodion sy'n fwrdd gwellt, a bwrdd o ronynnau cywarch.

“*Ni allai unrhyw un arall yn Ewrop wneud y gwaith hwn i Plant Fibre Technology*”
Gary Newman, Cyfarwyddwr

Cydweithio â BEACON

Gan weithio i ddatblygu cynhyrchion ynysu naturiol newydd ac arloesol, trodd PFT at BEACON gan fod diddordeb ganddynt mewn ymchwilio i botensial deunyddiau gwair a glaswellt o safbwynt ynysu.



Cyfarwyddwr y Cwmni, Gary Newman, ar safle yn gosod ynysiad o ffibr planhigion ar brosiect tai ffrâm pren, carbon isel, Williams Homes



Ynysiad o ffibrau naturiol gan Plant Fibre Technology

Oherwydd bod offer maint peilot ac arbenigedd ar gael yn BEACON, dechreuodd Gary gydwethio â nhw. Ar ôl esbonio'r manylebau a'r gofynion ar gyfer y ffibr, defnyddiodd BEACON y cyfleuster bioburo unigryw ym Mona, Ynys Môn, ynghyd ag arbenigedd y staff yn y Ganolfan BioGyfansoddion ym Mhrifysgol Bangor, i gynnal treialon ar oddeutu 200kg o ddeunyddiau biomas.

Mae'r cydweithio â BEACON wedi arwain at gynhyrchu deunyddiau ffibr crai ar gyfer datblygu ynysiad cynaliadwy naturiol. Mae canlyniadau prosiect ymchwil a datblygu BEACON wedi galluogi PFT i ddatblygu prototeip o ddeunydd ynysu sydd, ers hynny, wedi'i ddatblygu'n llawn yn gynnyrch gwerthadwy – mae'n ddyddiau cynnar yn y gwaith o fasnacheiddio'r cynnyrch hwn.



Plant Fibre
Technology Ltd.

Am fwy o wybodaeth: www.plantfibretechnology.com/